# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Blynyddol 2023-24, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **Swyddog perthnasol:** | Delyth G Williams, Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 16 Gorffennaf 2023 |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

Gofynnir i'r Cabinet nodi cynnwys a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2023-24, Cynllun Cydraddoldeb 2020-24.

## 2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

Mae adrodd cynnydd ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn flynyddol yn ddyletswydd yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 fel mae'n cael ei weithredu yng Nghymru. Mae hefyd yn ymarfer da o fewn y Cyngor i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r cynnydd.

## 3. Cyflwyniad a Rhesymeg

### 3.1 Cefndir/Cyflwyniad

Bwriad yr Adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd sydd wedi ei wneud i Gynllun Gweithredu'r 5 Amcan Cydraddoldeb y gweithiwyd tuag atynt yn ystod 2023-24 fel sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24. Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r cynnydd yna.

### 3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad

Pwrpas y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ydi lleihau anghydraddoldeb rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchodedig a phobl sydd heb y nodweddion hynny yn unol â'n dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Prosiect Sicrhau Tegwch i Bawb (sef y Cynllun Cydraddoldeb) wedi ei adnabod fel un o'r prosiectau blaenoriaeth o fewn Cynllun y Cyngor gan y Cabinet. Mae'n diwallu'r angen yn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol i sicrhau "Cymru mwy Cyfartal", ac yn cyd-fynd â'r 5 ffordd gynaliadwy o weithio trwy edrych i'r dyfodol, atal gwahaniaethu, cynnwys ein staff a'r cyhoedd, hybu tegwch a gweithio ar y cyd ar draws y Cyngor a gyda'r cyhoedd.

Dyma pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb 2020-24 ac mae'n adrodd yn erbyn y 5 amcan a nodir ynddo. Gan mai hwn ydi'r Cynllun olaf ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 mae hefyd yn edrych ar y cynnydd yn ystod y cyfnod a beth sy'n digwydd nesaf.

Mae’r adroddiad hefyd yn cynnwys manylion ychwanegol yn unol â chanllawiau Deddf Cydraddoldeb 2020-24 fel mae’n cael ei weithredu yng Nghymru, gan gynnwys adroddiad ar nodweddion cydraddoldeb ein gweithlu.

Mae’n dda nodi fod y rhan helaethaf o’r gwaith sy’n cael ei nodi yn y Cynllun Gweithredu wedi ei gwblhau erbyn hyn, er gwaetha’r amser anodd a brofwyd ar gychwyn cyfnod y Cynllun. Mae unrhyw waith sydd heb ei gwblhau wedi ei gynnwys yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth, yn enwedig gan fod llawer o’r gwaith yn hir-dymor ac am gymryd amser I'w gwblhau.

Roedd Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ardrawiad Economaidd-Gymdeithasol wedi ei baratoi ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ac mae wedi ei ddiweddaru yn gyson. Paratowyd un newydd ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.

### 3.3 Camau nesaf

Rydym yn awr wedi cychwyn ar waith Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28.

## 4. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 4.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb yn creu ymrwymiadau gwario ychwanegol. Rwyf yn cefnogi’r adroddiad, ac nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

### 4.2 Swyddog Monitro

Rwy’n croesawu’r Adroddiad Blynyddol ar berfformiad yn erbyn dyletswydd sydd yn berthnasol i holl weithgareddau’r Cyngor.

**Rhestr Atodiadau**

Adroddiad Blynyddol 2023-24, Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24
Gwybodaeth Cyflogaeth 2023-24
Cwynion Cydraddoldeb 2023-24

**Rhestr Dogfennau Cefndir**